



Road Safety Wales

Diogelwch Ffyrdd Cymru

Low Down

Diogelwch Ffyrdd Cymru yn croesawu Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru, sef y bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol Cymru, y gwasanaethau brys, GoSafe, Llywodraeth Cymru a RoSPA, yn falch o gyhoeddi penodiad Cadeirydd newydd, Rhys John-Howes, ac Is-gadeirydd newydd, Kayleigh Tonkins.

Mae'r bartneriaeth yn hynod ddiolchgar i'r Cadeirydd blaenorol, Teresa Ciano, am ei harweinyddiaeth am y chwe blynedd diwethaf a'i hymroddiad i ddiogelwch ar y ffyrdd; hoffem ddymuno pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

Mae'r penodiadau newydd yn dod â chyfoeth o brofiad a gwybodaeth am ddiogelwch ar y ffyrdd i'w rolau. Mae Rhys John-Howes yn cael ei gyflogi yn y sector diogelwch ffyrdd ers 2002 ac fel Swyddog Diogelwch Ffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin mae'n dod ag ymrwymiad i barhau'r cydweithio a'r rhyngweithio rhwng yr holl bartneriaid allweddol ledled Cymru.

Pan gafodd ei benodi, dywedodd Rhys, "Gyda bron 23 blynedd o brofiad ym maes diogelwch ar y ffyrdd, rwy'n teimlo'n angerddol iawn ynghylch lleihau nifer yr anafiadau ar ein ffyrdd, ac mae'n anrhydedd imi gael fy mhenodi'n Gadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru. Rwy'n edrych ymlaen at barhau â'n hymdrechion ar y cyd fel partneriaeth i amddiffyn ein preswylwyr a'n hymwelwyr, yn enwedig ein defnyddwyr ffyrdd mwyaf agored i niwed.

Mae Kayleigh Tonkins yn dod ag wyth mlynedd o arbenigedd mewn diogelwch ar y ffyrdd i rôl yr Is-gadeirydd, ar ôl bod yn Swyddog Diogelwch Ffyrdd yng Nghyngor Sir Ceredigion ers 2016. Mae'r ddau gydweithiwr wedi dangos cred gadarn ym manteision gweithio mewn partneriaeth, ar ôl bod yn gyfranwyr cyson a gwerthfawr at fentrau cenedlaethol.

Gan weithio ar draws ystod o brosiectau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd diogelwch ffyrdd, mae partneriaid Diogelwch Ffyrdd Cymru yn cefnogi cenhadaeth y bartneriaeth: lleihau nifer yr anafusion ymhellach drwy gydweithio.

YN Y RHIFYN HWN:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd Newydd

Ystadegau: 20mya

Ymgyrch Harley

A4059

Cardiau CRASH

Teithio llesol: Fflint

Gyrru ar alcohol neu gyffuriau



Ffigurau a gyhoeddwyd heddiw yn darparu'r flwyddyn gyntaf o ystadegau ers cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya

Maent yn dangos bod tua 100 yn llai o bobl wedi cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd gyda therfynau cyflymder o 20mya a 30mya yn y cyfnod o 12 mis ar ôl cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya, o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.



Yn ystod y cyfnod o 12 mis o Ch4 2023 i Ch3 2024 (h.y. ar ôl cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya), mae nifer yr anafiadau ar ffyrdd 20 a 30mya (gyda'i gilydd) 28% yn is na'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates: "Mae'r data a gyhoeddwyd heddiw yn darparu gwybodaeth am y flwyddyn lawn gyntaf ers cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya.

Mae'r darlun yn parhau i fod yn galonogol gyda nifer y gwrthdrawiadau ar ein ffyrdd ar eu lefel isaf ar gyfer y chwarter hwn. Rydym yn gwybod bod ffordd i fynd ac

rydym bob amser wedi dweud y bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i weld effaith lawn y polisi, ond mae gweld y ffigurau ar gyfer y chwarter hwn ar eu lefel isaf yn gadarnhaol.

Rydym yn parhau i adeiladu ar y consensws bod 20mya yn gweithio'n dda ar y ffyrdd cywir. Rydym wedi gwrandao ar farn pobl am y polisi ac rydym wedi grymuso awdurdodau lleol i wneud newidiadau lle mae'n ddiogel gwneud hynny.

Mae'r ystadegau cyhoeddedig diweddaraf ar gael yma.

Beiciau wedi'u hatafaelu mewn ymgyrch i fynd i'r afael â gyrru oddi ar y ffordd anghyfreithlon

Cynhaliodd swyddogion batrolau yn ardaloedd Alway, Ringland, Llyswry a Maendy yng Nghasnewydd yn rhan o Ymgyrch Harley.

Gwnaethom atafaelu beic modur trydan a oedd yn cael ei yrru heb yswiriant yn Alway, a beic trydan yn Llyswry roeddem yn amau oedd wedi cael ei ddwyn. Arestiodd swyddogion ddyn yn Ringland ar amheuaeth o gyflenwi cyffur rheoledig dosbarth A - cocên.

Meddai Cwnstabl Heddlu Thomas Gardner, rheolwr ward cymdogaeth Alway: "Mae ein timau cymdogaeth yn ymwybodol iawn o'r effaith mae defnyddio beiciau oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon yn ei chael ar ein cymunedau.

"Rydyn ni'n derbyn cwynion yn aml gan breswylwyr am feiciau trydan a beiciau oddi ar y ffordd yn cael eu gyrru'n anghyfreithlon ar y ffyrdd.

"Byddwn yn parhau i gynnal ymgyrchoedd rheolaidd fel yr un yma yng Nghasnewydd a ledled Gwent.



"Mae angen gwybod ble mae'r beiciau yma'n cael eu defnyddio a'u storio arnom ni er mwyn i ni eu hatafaelu a dod o hyd i'r bobl nad ydyn nhw'n malio dim yn aml am ddefnyddwyr eraill y ffyrdd, cymdogion na cherddwyr."

Gwybodaeth allweddol am newidiadau i wella diogelwch ar y brif ffordd i Gwm Cynon



Bydd mesurau pwysig i hybu a gwella diogelwch yn cael eu cyflwyno ar yr A4059 rhwng Cylchfan Abercynon a Chwm-bach. Mae hyn yn dilyn adolygiad o amodau traffig ar hyd y llwybr yma, a gynhaliwyd gan swyddogion mewn ymateb i gynnydd mewn gwrthdrawiadau difrifol iawn yn y blynnyddoedd diwethaf.

Cafodd yr adolygiad o ddiogelwch ar y ffyrdd ei lywio gan y data diweddaraf am wrthdrawiadau ac anafiadau ynghyd â chyflymder traffig ar y ffyrdd. Bu nifer o wrthdrawiadau difrifol gan gynnwys rhai angheuol dros y pum mlynedd diwethaf. Roedd cyflymder yn ffactor a gyfrannodd at gyfran uchel o'r damweiniau hyn.

Mae'r Cyngor wedi comisiynu cyfrifyddion traffig awtomatig, sy'n cofnodi cyflymder modurwyr ar rannau 'Terfyn Cyflymder Cenedlaethol' yr A4059 dros gyfnod o saith diwrnod. Cyflymder cyfartalog modurwyr oedd 48mya, sy'n is na'r terfyn cyflymder. Serch hynny, roedd 15 achos lle'r oedd modurwyr yn teithio ar gyflymder o 100mya neu uwch, gydag un cerbyd

wedi'i nodi yn teithio ar gyflymder o 127mya.

Dywedodd llefarydd ar ran Cyngor Rhondda Cynon Taf : “Mae trigolion yn cael eu hatgoffa am y newidiadau parhaol, allweddol yma ar yr A4059 rhwng Cylchfan Abercynon a Chwm-bach – sy'n cael eu cyflwyno yn yr wythnosau nesaf i hybu diogelwch ar y ffyrdd. Bydd modurwyr yn sylwi ar offer camera cyflymder cyfartalog newydd ac arwyddion yn cael eu gosod yn fuan, a bydd y terfynau cyflymder newydd sy'n cael eu cyflwyno i'w gweld yn amlwg.

“Mae'r mesurau yma wedi'u hanelu at dargedu'r lleiafrif o fodurwyr sy'n dewis teithio ar gyflymderau peryglus ar y llwybr yma, yn hytrach na'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr ffyrdd a fydd ddim yn cael eu heffeithio gan y newidiadau. Mewn gwirionedd, gwelodd ein hymarfer monitro cyflymder diweddar gyflymder cyfartalog o 48mya ar hyd y llwybr yma. Mae hyn is na'r terfyn cyflymder o 50mya a gyflwynwyd. Bydd y parth 50mya presennol o amgylch Cyffordd Chwarter Milltir yn lleihau i 40mya, gan fod cynllun y ffordd yn heriol i fodurwyr sy'n troi i'r dde i fynd ar yr A4059.

“Yn seiliedig ar fonitro blaenorol, amcangyfrifir bydd tua 85% o yrrwyr ddim yn gweld unrhyw effaith ar eu cyflymder gyrru presennol. Yn ogystal, amcangyfrifir y bydd siwrneiau ar yr A4059 dim ond yn cymryd 25 eiliad yn hirach ar gyfartaledd i'r naill gyfeiriad dros yr holl hyd o Gwmbach i Abercynon yn dilyn y newidiadau – tra bydd y buddion diogelwch yn sylweddol.

“Diolch i ddefnyddwyr y ffordd am eich cydweithrediad wrth i'r mesurau pwysig yma a gefnogir gan Heddlu De Cymru a GanBwyll gael eu cyflwyno. Eu nod yw sicrhau bod pob modurwr yn teithio ar gyflymder cyfrifol, er budd y miloedd o bobl sy'n defnyddio'r llwybr rhydweliol yma'n rheolaidd. Byddwch yn ofalus iawn wrth ddod i arfer â'r trefniadau newydd.”


Dywedodd llefarydd ar ran GanBwyll, Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru: “Prif amcan GanBwyll yw gwneud ffyrdd Cymru yn fwy diogel i bawb. Mewn lleoliadau â niferoedd uchel o wrthdrawiadau difrifol ac angheuol, mae'n briodol inni weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod priffyrdd lleol, gwasanaeth yr heddlu, ac asiantaethau eraill, i gyflawni gwelliannau diogelwch sylweddol.

“Rydyn ni'n llwyr gefnogi ymdrechion Cyngor Rhondda Cynon Taf i wneud y ffordd yn fwy diogel. Rydyn ni'n hyderus y bydd y mesurau yma'n atal pobl rhag gyrru ar gyflymder peryglus ac yn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.”



Cardiau CRASH am ddim i feicwyr modur yng Nghymru

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru wedi dechrau'r flwyddyn newydd gyda phecyn newydd o'n Cardiau CRASH poblogaidd i feicwyr modur, sydd ar gael am ddim i feicwyr a theithwyr pilion unigol, ac aelodau clybiau beiciau modur ledled Cymru.



Cadeirydd y Bartneriaeth, Rhys John-Howes, sy'n esbonio'r fenter: “Ar ryw adeg yn eich oes feicio mae’n bosibl eich bod wedi 'disgyn yn annisgwyl' neu efallai wedi bod yng nghwmni beiciwr a wnaeth felly. Mae 'CRASH' yn gyfres o gamau hawdd i’w cofio, i’ch cadw chi’n ddiogel, yn ogystal â’r beiciwr anffodus a gafodd y gwrthdrawiad.

“Ar un ochr o’r cerdyn fe welwch y cofair 'CRASH'. Y sawl sy’n gwneud yr alwad 999 yw’r unigolyn pwysicaf, oherwydd bod y wybodaeth maent yn ei chynnig yn pennu ymateb y gwasanaethau brys.

“Mae’r cerdyn yn dilyn cyfres debyg o gwestiynau cyffredinol y mae canolfannau rheoli’r gwasanaeth ambiwlans yn eu

defnyddio, ac yn canolbwyntio ar ddiogelwch, lleoliad y gwrthdrawiad, a pha mor ddifrifol ydyw. Ar ochr arall y garden mae'r wybodaeth sy'n cael ei defnyddio gan y gwasanaeth ambiwlans a'r ysbyty gan gynnwys lle i nodi unrhyw feddyginiaethau y mae'r beiciwr modur ag alergedd iddynt, hanes meddygol cyfredol a manylion unrhyw feddyginiaethau maent yn eu cymryd ar hyn o bryd.”

Yn bwysicach na dim, mae hefyd lle ar y garden i nodi enw a rhif ffôn cyswllt y perthynas agosaf. Mae nifer o ffonau y dyddiau hyn yn gofyn am gôd pin er mwyn cael mynediad at unrhyw wybodaeth, sy'n golygu nad oes modd cael gafael ar unrhyw rifau ffôn 'ICE' sydd wedi'u storio. Rhowch y cerdyn yn leinin eich helmed am mai yma y bydd y gwasanaethau brys yn chwilio amdano.

Gallwch helpu’r gwasanaethau brys drwy eu rhybuddio bod gennych gerdyn CRASH drwy roi dot gwyrdd ar gornel dde eich fisor haul/helmed, gan wneud yn siwr nad yw’n amharu ar eich golwg. A pheidiwch â phoeni, mae’n ddiogel i’w roi ar unrhyw helmed.

Cofiwch - mae diosg helmed modur yn sgil sy’n waith i ddau unigolyn ac sy’n cael ei ymarfer gan bersonél hyfforddedig - peidiwch byth â cheisio diosg helmed rhywun arall ar eich pen eich hun.

Mae Cardiau CRASH ar gael trwy bartneriaid Diogelwch Ffyrdd Cymru neu yn ganolog drwy gysylltu â communication@roadsafetywales.org.uk.

Fflint: Teithio llesol a theithio cynaliadwy

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i wneud gwelliannau teithio llesol a theithio cynaliadwy sylweddol yn Acton a Phenarlâg.

Fe fydd y cynllun yn gwella cysylltedd ar hyd Lower Aston Hall Lane, gan greu llwybr cerdded/llwybr beicio a rennir oddi ar y ffordd. Fe fydd hwn yn cysylltu â’r llwybr a rennir a gwblhawyd yn ddiweddar ar Aston Hill/ A494, gan ddarparu llwybr mwy diogel a hygyrch i gerddwyr a beicwyr. Yn ychwanegol, fe fydd croesfan sebra newydd yn cael ei chreu a bydd gwelliannau hanfodol i’r gerbyttffordd yn cael eu gwneud a fydd yn cefnogi teithio diogel a chynaliadwy ymhellach.



Wedi cymryd alcohol neu gyffuriau? Peidiwch â gyrru

Mae gan bob gyrrwr a reidiwr gyfrifoldeb cyfreithiol i gydymffurfio â'r gyfraith ynghylch gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau. Mae amhariad yn cynyddu'r risg o wrthdrawiad yn arwyddocaol a gall arwain at ganlyniadau dinistriol.



Mae alcohol yn rhoi ymdeimlad ffug o hyder, bydd eich barn yn cael ei heffeithio, bydd ymatebion atgyrch yn gostwng, ac mae amserau ymateb yn arafach.

Os ydych chi'n bwriadu gyrru neu reidio cerbyd, osgowch alcohol yn llwyr. Dyma'r unig ffordd i fod yn sicr eich bod dan y terfyn yfed a gyrru. Gadewch eich cerbyd gartref a chyn mynd allan gwnewch gynlluniau ynglŷn â sut i fynd yn ôl – mae cadw rhif darparwr taccis lleol yn eich ffôn neu lawrlwytho ap taccis yn gallu arbed amser a thrafferth yn nes ymlaen.

Er bod gan lawer o bobl ymwybyddiaeth o beryglon yfed a gyrru, efallai y bydd rhai yn llai cyfarwydd â'r effeithiau y mae cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon yn eu cael ar eu gallu i yrru'n ddiogel, ac o fewn y gyfraith.

Mae'n drosedd i rywun yrru gydag unrhyw un o'r 17 o gyffuriau a reolir uwchlaw lefel benodol yn y gwaed – mae hyn yn cynnwys cyffuriau anghyfreithlon a meddygol. Os yw'n amharu ar eu gyrru, mae hefyd yn anghyfreithlon i rywun yrru gyda chyffuriau cyfreithlon yn eu corff, fel y rhai a ragnodir gan feddyg neu a brynir dros y cownter. Gall meddyg, fferylllydd neu weithiwr meddygol proffesiynol arall roi gwybod ichi a allai unrhyw feddyginiaeth effeithio ar eich gyrru.

Dylid osgoi cyffuriau anghyfreithlon bob amser, ond yn anffodus mae lleiafrif o bobl yn dewis torri'r gyfraith. Gall canabis arwain at ddiffyg canolbwytio, adweithiau arafach a pharanoia. Gall cocên arwain at ymddygiad mwy ymosodol, mwy o gymryd risg a gor-hyder.

Dywedodd Rhys John-Howes, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru: “Gall effeithiau cyffur fod yn gymharol fyrhoedlog ond maen nhw'n gallu aros yn eich system am oriau lawer ar ôl eu defnyddio – gall rhai cyffuriau aros yn y corff am sawl diwrnod. Hyd yn oed pan fydd yn teimlo bod y cyffur wedi pylu, mae modd ei ganfod yn eich system o hyd – mewn poer, gwaed neu wrin – am gyfnod hirach o amser.

“Mae gyrru ar ôl defnyddio cyffuriau yn annerbyniol ac yn creu risg i holl ddefnyddwyr y ffordd.”

Dywedodd yr Uwch-arolygydd Jolene Mann, Pennaeth Gweithrediadau Arbenigol Heddlu Dyfed Powys: “Bob blwyddyn, mae gyrrwyr ar gyffuriau yn rhan o wrthdrawiadau difrifol ac angheuol yng Nghymru. Dyw'r rhan fwyaf o bobl ddim yn credu y bydd hyn yn digwydd iddyn nhw, ond mae cyffuriau a gyrru yn gyfuniad marwol, hyd yn oed os ydych chi'n credu eich bod chi'n iawn i yrru neu heb fod yn rhan o wrthdrawiad wrth yrru dan ddylanwad ar achlysur blaenorol.

“Trwy Ymgyrch Revoke, ar y cyd â'r DVLA, rydyn ni wrthi'n targedu gyrrwyr sy'n defnyddio cyffuriau ac yn sicrhau bod eu trwyddedau gyrru'n cael eu dirymu.”

